Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Yr Hyn sy'n Gweithio wrth Drechu Tlodi Gwledig

**John Powell, Dan Keech, Matt Reed a Janet Dwyer**
Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned
Prifysgol Swydd Gaerloyw
Mawrth 2018

# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru[1] yn gwella prosesau llunio a chyflawni polisïau drwy gomisiynu gwaith dadansoddi a chyngor arbenigol a hyrwyddo'r defnydd ohonynt. Mae'r Sefydliad yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi er mwyn helpu i ddatblygu syniadaeth o'r newydd ynglŷn â sut i fynd i'r afael â heriau strategol a materion polisi cymhleth. Mae'n gwneud y canlynol:

Gweithio'n uniongyrchol gyda Gweinidogion Cymru i nodi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnynt;

Cyfeirio at ymchwil berthnasol ac yn comisiynu arbenigwyr polisi i ddarparu gwaith dadansoddi a chyngor ychwanegol lle mae bylchau yn y dystiolaeth;

Darparu cyswllt cryf rhwng Canolfannau 'What Works' a llunwyr polisi yng Nghymru;

Arwain rhaglen ymchwil i'r Hyn sy'n Gweithio wrth Drechu Tlodi.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk

## Arianwyr Craidd

[1] Ym mis Hydref 2017 daeth Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn rhan o Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. . Mae'r Ganolfan yn adeiladu ar lwyddiant y Sefydliad, a bydd yn parhau â'i waith o ddiwallu anghenion tystiolaeth Gweinidogion Llywodraeth Cymru, ynghyd â chenhadaeth newydd i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwyso tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth ateb heriau economaidd a chymdeithasol allweddol. Cafodd yr aseiniad hwn ei gomisiynu ar gyfer rhaglen waith olaf y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.

# Cynnwys

Crynodeb 4

Cyflwyniad 6

Ymyriadau Tai 7

Ymyriadau Trafnidiaeth 11

Mynediad i Wasanaethau 17

Tlodi Tanwydd 23

Yr Economi Wledig 27

Dulliau Unedig o Drechu Tlodi Gwledig 32

Goblygiadau Polisi 33

Cyfeiriadau 35

Atodiad 1- Enghraifft o gymysgedd o raglenni i ddiwallu anghenion a chreu cyfoeth 37

# Crynodeb

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ystod eang o raglenni i fynd i'r afael â thlodi gwledig ac eto mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu bod bron i chwarter o'r boblogaeth wledig yng Nghymru yn byw mewn tlodi.

- Mae pwysau parhaus ar gyllideb Llywodraeth Cymru ynghyd â'r posibilrwydd y collir arian yr UE ar gyfer rhaglenni gwledig yn golygu ei bod yn hollbwysig bod ei adnoddau yn targedu'r dulliau mwyaf costeffeithiol o fynd i'r afael â thlodi gwledig.

- Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi mwy na 50 o ymyriadau mewn 12 o wledydd OECD a geisiodd fynd i'r afael â phum agwedd allweddol ar dlodi gwledig - anghenion o ran tai, cael gafael ar wasanaethau, tlodi tanwydd, a datblygu economaidd gwledig.

- Ychydig iawn o wybodaeth sydd am gosteffeithiolrwydd yr ymyriadau hyn ond maent yn darparu amrywiaeth o enghreifftiau a allai gael eu haddasu a'u treialu yng Nghymru.

- Mae'r dystiolaeth o'r ymyriadau hyn yn dangos bod achosion rhyng-gysylltiedig cymhleth tlodi gwledig yn ei gwneud yn bwysig i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol, amgylcheddol ac iechyd mewn cymunedau, ochr yn ochr â mesurau i gynyddu ffyniant economaidd.

- Mae'r adroddiad yn argymell gweithredu mewn tair ffordd yn seiliedig ar: (1) datblygu cyfalaf economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol ac iechyd, (2) diwallu anghenion, a (3) cynllunio a gweithredu strategol er mwyn sicrhau bod ymyriadau i leddfu tlodi gwledig yn cael eu cydgysylltu.

- Gall gweithredu ar sail lle helpu i gymryd camau unedig sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol ac wedi'u teilwra i'w hasedau. Rhaid iddynt fynd y tu hwnt i ddarpariaeth lles a gwasanaethau iechyd a chynnwys camau cydgysylltiedig i wella darpariaeth tai a gwasanaethau trafnidiaeth, creu swyddi, a datblygu asedau lleol.

- Y bylchau sylweddol yn y dystiolaeth gyfredol o ran yr hyn sy'n gweithio wrth drechu tlodi gwledig. Byddai'n fuddiol cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o gryfderau, gwendidau, a bylchau darpariaeth bresennol gwasanaethau mewn cymunedau gwledig yng Nghymru. Dylid defnyddio data ansoddol a meintiol er mwyn nodi effeithiau rhaglenni presennol, natur a graddau anghenion nas diwallwyd a'r cysylltiadau rhwng gwahanol raglenni a pholisïau.

- Byddai hefyd yn ddefnyddiol addasu a threialu ymyriadau sydd wedi'u rhoi ar waith mewn mannau eraill er mwyn profi p'un a ydynt yn diwallu anghenion

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi amrywiaeth o raglenni datblygu gwledig ac eto mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu bod 23% o'r boblogaeth yng Nghymru wledig yn byw mewn tlodi, sy'n fwy nag unrhyw le arall yn y DU (Sefydliad Joseph Rowntree, 2016). Fel gweinyddiaethau eraill, mae'n wynebu cyfyngiadau cyllidebol mawr a'r posibilrwydd y collir arian o'r UE (Williams a Doyle, 2016). Mae hyn yn golygu ei bod yn hollbwysig sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar ddulliau o drechu tlodi gwledig sy'n gosteffeithiol.

Mae ymchwilwyr yn cydnabod bod 'tlodi' yn derm dadleuol ac mae ei achosion yn gymhleth ac yn aml-ddimensiynol (Madanipour et al., 2015). Mae'r adroddiad hwn yn mabwysiadu diffiniad eang sy'n cynnwys y gallu i wneud y canlynol:

- Bod yn rhan o gymdeithas brif ffrwd;
- Cael gafael ar wasanaethau;
- Mwyhau safon byw resymol;
- Cael digon o incwm i ddiwallu anghenion sylfaenol.

Mae achosion sylfaenol y mathau gwahanol, ond rhyng-gysylltiedig, hyn o dlodi yn debyg mewn ardaloedd trefol a gwledig, ond gall cymunedau gwledig wynebu heriau penodol sy'n gysylltiedig â'r pellter o wasanaethau allweddol, cyfleoedd gwaith prin ac incwm isel, costau byw uwch (a elwir weithiau'n 'bremiwm gwledig'), trafnidiaeth gyhoeddus annigonol, ynysu cymdeithasol, a stoc dai gyfyngedig.

Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r dystiolaeth o fwy na 50 o ymyriadau mewn 12 o wledydd OECD a geisiodd fynd i'r afael â'r problemau hyn. Nodwyd yr ymyriadau o ystod eang o'r llenyddiaeth academaidd, dogfennau'r llywodraeth, adroddiadau blynyddol a gwefannau sefydliadol y chwiliwyd drwyddynt. Gwnaethom ganolbwyntio ar astudiaethau a gyhoeddwyd o 2000 ymlaen sy'n darparu rhyw fath o werthusiad neu asesiad effaith. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain mewn gwledydd Saesneg eu hiaith, yn enwedig y DU, Canada, UDA, Awstralia a Seland Newydd, ond gwnaethom hefyd ddod o hyd i astudiaethau perthnasol o gyfandir Ewrop, yn enwedig Sgandinafia.

Rhoddir disgrifiadau manwl o'r ymyriadau a ddadansoddwyd gennym mewn adroddiadau ar wahân ar dai, trafnidiaeth, mynediad i wasanaethau, tlodi tanwydd a'r economi wledig sydd ar gael o'n gwefan (yn ppiw.org.uk). Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r mentrau hyn, yn tynnu sylw at rai themâu trawsbynciol pwysig ac yn awgrymu rhai goblygiadau polisi posibl i Gymru.

# Ymyriadau Tai

Mae diffyg tai fforddiadwy yn broblem fawr mewn llawer o gymunedau gwledig. Gall cyfuniad o stoc dai gyfyngedig, twristiaeth ac ail gartrefi gynyddu prisiau tai a rhent, gan adael pobl leol allan o'r farchnad dai. Nododd ein dadansoddiad ddau ddull cyffredinol o fynd i'r afael â'r her hon:

- Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol ac Ymddiriedolaethau Eiddo Cymunedol - cyrff cymunedol bach sy'n darparu tai newydd neu'n adnewyddu adeiladau presennol gan eu gwerthu neu eu rhentu islaw cyfraddau'r farchnad.
- Cymhellion ariannol i'r sector preifat fuddsoddi - fel credydau treth ar gyfer buddsoddi mewn adeiladu tai fforddiadwy a grantiau'r llywodraeth, neu fenthyciadau llog isel i adeiladwyr tai. Gall y mesurau hyn hwyluso datblygiadau mawr ac, o'u cyfuno â gwerthiannau masnachol, gallant fod yn ddeniadol i ddatblygwyr.

Mae Tabl 1 yn dangos prif nodweddion yr ymyriadau tai a nodwyd gennym. Mae angen gwerthuso eu heffeithiolrwydd yn y tymor hwy oherwydd yr amser sydd ei angen ar ddatblygiadau tai i fynd o'r cam cynllunio i'w cwblhau. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, er y gall fod gan ymyriadau tai gostau cychwynnol uchel o gymharu â rhai ymyriadau eraill, y gallant hefyd gael amrywiaeth o effeithiau anuniongyrchol yn ogystal â darparu cartrefi newydd. Mae'r rhain yn cynnwys gwella cyfalaf dynol a chymdeithasol, datblygu sgiliau newydd a darparu cyfleoedd gwaith newydd, a gwella ansawdd ac effeithlonrwydd ynni'r stoc dai.

## Tabl 1. Ymyriadau i ddiwallu anghenion o ran tai

| Tai Ymyriadau | Math o ymyriad | Cost | Effaith ar bobl ag anghenion o ran tai | Amserlen | Effeithiau trawsbynciol: gwasanaethau cymorth | Effeithiau trawsbynciol: creu cyfoeth | Effeithiau trawsbynciol: amgylchedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaethau tir/eiddo cymunedol | Darparu tai fforddiadwy lleol ar raddfa fach drwy greu ymddiriedolaethau cymunedol lleol.<br><br>Ei gwneud yn bosibl i gael gafael ar fuddsoddiadau gan y sector preifat | Uchel | Galluogi pobl i brynu neu rentu cartref islaw gwerth y farchnad.<br><br>Effeithir ar niferoedd bach. | Hirdymor | Gall poblogaeth gynyddol gynyddu'r galw am wasanaethau lleol. Cysylltiad posibl â gwasanaethau cymorth ariannol (e.e. trefniadau morgais ffafriol) | Darparu swyddi lleol; cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant. Gall YTC/YEC ddatblygu cyfalaf dynol a chymdeithasol mewn cymuned | Y potensial i'w gwneud yn ofynnol darparu tai cynaliadwy, sy'n effeithlon iawn o ran ynni.<br><br>Mwy o reolaeth leol dros ddatblygiadau |
| Credydau treth i adeiladu tai fforddiadwy | Galluogi buddsoddwyr i hawlio credydau treth ar fuddsoddiad mewn prosiectau tai fforddiadwy. Ei gwneud yn bosibl i gael gafael ar fuddsoddiadau gan y sector preifat | Canolig | Darparu tai fforddiadwy i'w gwerthu/rhentu. Gall prosiectau fod yn fach neu'n fawr. | Hirdymor | Gall poblogaeth gynyddol gynyddu'r galw am wasanaethau lleol | Darparu swyddi lleol; cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant. | Y potensial i'w gwneud yn ofynnol darparu tai cynaliadwy, sy'n effeithlon iawn o ran ynni. |
| Cymorth i fuddsoddi mewn adeiladu tai | Amrywiaeth o ddulliau o ariannu tai yn rhannol (drwy grantiau). | Uchel | Galluogi pobl i brynu neu rentu cartref islaw gwerth y | Hirdymor | Gall poblogaeth gynyddol gynyddu'r galw am wasanaethau lleol. Cysylltiad posibl â gwasanaethau | Darparu swyddi lleol; cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant. | Y potensial i'w gwneud yn ofynnol darparu tai cynaliadwy, sy'n effeithlon iawn o |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ei gwneud yn bosibl i gael gafael ar fuddsoddiadau gan y sector preifat | farchnad.<br><br>Effeithir ar niferoedd bach. | cymorth ariannol (e.e. trefniadau morgais ffafriol) | ran ynni. |

# Ymyriadau Trafnidiaeth

Mae trafnidiaeth yn chwarae rhan allweddol wrth leddfu tlodi gwledig am ei bod yn darparu'r cyswllt ag ystod eang o wasanaethau hanfodol eraill, yn ogystal â chyfleoedd gwaith a gweithgareddau cymdeithasol. Gwnaethom nodi tri phrif fath o ymyriad:

- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus;
- Systemau trafnidiaeth gymunedol;
- Bod yn berchen ar gerbydau preifat â chymhorthdal.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig fel arfer yn dibynnu ar gymhorthdal ac felly gall ddioddef toriadau i wasanaethau. Mae gwasanaethau a amserlennir yn defnyddio prif lwybrau cyfathrebu nad ydynt yn diwallu anghenion pobl sy'n byw mewn aneddiadau anghysbell, ac yn aml ychydig iawn o ddarpariaeth, os o gwbl, sydd gyda'r nos ac ar y penwythnos.

Gall rhwydweithiau trafnidiaeth integredig ddarparu ystod ehangach o opsiynau sy'n cynnwys cyfuniad o wasanaethau llwybrau sefydlog, a amserlennir a gwasanaethau mwy hyblyg (er enghraifft bysiau sy'n gwyro oddi ar y prif lwybrau er mwyn casglu a gollwng teithwyr, a gwasanaethau galw'r gyrrwr).  Mae ystod eang o amrywiadau o ran y gwasanaeth 'galw'r gyrrwr' ond mae angen archebu'r rhan fwyaf ymlaen llaw.

Mae systemau trafnidiaeth gymunedol yn gweithredu mewn ffyrdd tebyg i wasanaethau galw'r gyrrwr, er y gallant hefyd ddarparu teithiau rheolaidd (e.e. i'r siopau a/neu ganolfannau gwasanaeth/meddygol, digwyddiadau cymdeithasol lleol). Ond maent yn dibynnu ar yrwyr a gweinyddwyr gwirfoddol.

Mewn ardaloedd gwledig â phoblogaethau cymharol fawr gall amserlenni hyblyg a systemau galw'r gyrrwr fod yn ddigon i ddiwallu anghenion, ond mewn ardaloedd anghysbell efallai mai helpu pobl i brynu cerbyd â chymhorthdal yw'r unig opsiwn. Un o wendidau allweddol trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol yn aml yw'r anallu i helpu trigolion gwledig i achub ar gyfleoedd gwaith penodol, hyfforddiant, a gwasanaethau gofal plant.  Mae ymyriadau fel cynlluniau 'Wheels to work', sy'n rhoi benthyg mopedau/sgwteri fel y gall pobl ifanc gael hyfforddiant a/neu fynd i'r gwaith yn Lloegr, yn ddrud i'w sefydlu a'u cynnal, a dengys profiad mai dim ond cyfran fach o'r boblogaeth sy'n cael budd. Ar y llaw arall, ceir cynlluniau llwyddiannus yn UDA sy'n darparu ceir i gartrefi incwm isel am fawr ddim mwy na chost cofrestru'r cerbyd a ffi fach. Maent yn dibynnu ar y cyhoedd yn rhoi cerbydau yn rhodd (sy'n gysylltiedig â chredydau treth mewn rhai achosion). Mae cost y cynlluniau hyn yn dibynnu ar sut maent yn cael eu sefydlu, a lefel y cymhellion ariannol i annog rhoi cerbydau yn rhodd, ond gallant hefyd gael buddiannau anuniongyrchol drwy greu swyddi a meithrin sgiliau mewn

ardaloedd gwledig. Gallai fod yn werth treialu'r cysyniad yng Nghymru er mwyn profi ei gosteffeithiolrwydd.

## Tabl 2. Ymyriadau i ddiwallu anghenion o ran trafnidiaeth

| Trafnidiaeth Ymyriadau | Math o ymyriad | Cost | Effaith ar bobl ag anghenion o ran trafnidiaeth | Amserlen | Effeithiau trawsbynciol: gwasanaethau cymorth | Effeithiau trawsbynciol: creu cyfoeth | Effeithiau trawsbynciol: amgylchedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trafnidiaeth gyhoeddus | Trafnidiaeth gyhoeddus llwybrau sefydlog a amserlennir | Uchel | Uchel: Darparu'r unig gyswllt i waith a gwasanaethau i'r rhai sy'n ddigon agos i ddefnyddio llwybrau ag amserlenni penodol | Hirdymor | Darparu mynediad i wasanaethau lleol. | Effaith gyfyngedig oni bai y cysylltir unigolion yn uniongyrchol â hyfforddiant/addysg/gwaith | Y posibilrwydd o leihau allyriadau cerbydau preifat (yn ymarferol nid yw pobl â cherbydau preifat yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus) |
| | Trafnidiaeth gyhoeddus llwybrau hyblyg a amserlennir | Uchel | Canolig: Effeithir ar lai o bobl; | Hirdymor | Darparu mynediad i wasanaethau lleol. | | Lleihau allyriadau drwy ond casglu teithwyr ar gais |
| | Gwasanaethau galw'r gyrrwr | Amrywiol | Isel: Effeithir ar lai o bobl/opsiwn amgen fel arfer yn bodoli ond gall fod yn hanfodol i rai er mwyn cael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill | Byrdymor-Tymor canolig | Darparu mynediad i wasanaethau lleol – yn enwedig gwasanaethau iechyd. | Gall wella cyfalaf cymdeithasol i'r rhai sy'n gwneud gweithgareddau cymdeithasol a hamdden mewn canolfannau lleol | |
| Trafnidiaeth gymunedol | | Amrywiol<br>Costau | Uchel: Effeithir ar lai o bobl | Byrdymor-Tymor canolig | Darparu mynediad i wasanaethau | Gall wella cyfalaf cymdeithasol i'r rhai sy'n gwneud gweithgareddau | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sefydlu uchel o bosibl | | lleol – yn enwedig gwasanaethau iechyd. | cymdeithasol a hamdden mewn canolfannau lleol, ac ymhlith gwirfoddolwyr. |

| Trafnidiaeth<br><br>Ymyriadau | Math o ymyriad | Cost | Effaith ar bobl ag anghenion o ran trafnidiaeth | Amserlen | Effeithiau trawsbynciol: gwasanaethau cymorth | Effeithiau trawsbynciol: creu cyfoeth | Effeithiau trawsbynciol: amgylchedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cael mynediad i ddulliau trafnidiaeth unigol (e.e. ceir, faniau, mopedau) | Cynlluniau rhannu ceir | Isel | Isel<br><br>(wrth gefn/defnydd cyfyngedig) | Byrdymor | Tueddol o ganolbwyntio ar gymudwyr, llwybrau cyfyngedig. | | Lleihau effaith amgylcheddol unigolion (e.e. defnydd o danwydd ffosil) |
| | Clybiau ceir | Costau sefydlu uchel | Isel<br><br>(wrth gefn/defnydd achlysurol) | Tymor canolig | Tueddol o gael eu defnyddio gan grwpiau incwm uchel at ddefnydd achlysurol (e.e. gwyliau) | | Lleihau effaith amgylcheddol unigolion (e.e. defnydd o danwydd ffosil) |
| | Darparu cerbydau at ddefnydd unigol | Isel – Uchel<br><br>(yn amrywio yn dibynnu ar y dull a ddefnyddir) | Uchel: gall gael effeithiau hirdymor sylweddol ar gartrefi sy'n cael budd | Hirdymor | Galluogi mwy o fynediad i ystod ehangach o wasanaethau | Creu swyddi ym maes atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau<br>Galluogi mynediad i addysg, hyfforddiant, cyfleoedd gwaith, gweithgareddau hamdden/cymdeithasol.<br><br>Gwella'r posibilrwydd o ddatblygu cyfalaf dynol a chymdeithasol | O bosibl yn cynyddu effaith amgylcheddol unigolion (e.e. allyriadau i'r aer, defnydd o danwydd ffosil) |

# Mynediad i Wasanaethau

Gall mynd i'r siop, defnyddio gwasanaethau gofal iechyd, addysg, gofal plant, canolfannau gwaith, banciau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden fod yn llafurus ac yn ddrud i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Gall rhai gwasanaethau gael eu darparu'n ddigidol, ar yr amod bod band eang da, ac mae rhai gwledydd (gan gynnwys UDA a Chanada) wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddarparu gwasanaethau 'telefeddygol'. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes angen rhyngweithio wyneb yn wyneb ac nid yw'n cymryd lle rhyngweithio cymdeithasol mwy personol yn gyfan gwbl.

Nododd ein hymchwil dri phrif gategori o ymyriad i wella mynediad i wasanaethau:

- Siopau un stop/canolfannau adnoddau;
- Canolfannau cymunedol;
- Cymorth yn y cartref.

Mewn siopau un stop/canolfannau adnoddau caiff sawl gwasanaeth (fel arfer gwasanaethau'r llywodraeth) ei ddarparu mewn modd canolog ac integredig. Nid ydynt yn newydd, ond mae datblygiadau diweddar mewn technoleg yn darparu lle i ffyrdd newydd o gyflenwi gwasanaethau cyfunol. Drwy gydleoli darparwyr gwasanaeth, caiff amseroedd a chostau teithio eu lleihau i drigolion gwledig, ond mae'n gofyn am weithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng asiantaethau. Dengys profiadau gwahanol wledydd bwysigrwydd trefniadau sefydliadol wrth wneud siopau un stop yn llwyddiant, a'r angen i ddarparu mannau croesawgar sy'n cynnig preifatrwydd.

Gall canolfannau cymunedol gynnwys amrywiaeth o wasanaethau a gall fod yn arbennig o bwysig i grwpiau 'anodd eu cyrraedd', gan leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â chael gafael ar rai gwasanaethau.

Mae cymorth yn y cartref yn cynnwys hyfforddi pobl leyg i helpu'r cyhoedd i gael gafael ar wasanaethau – er enghraifft cynllun yr Asiantiaid Pentref yn Lloegr. Gall costau sefydlu fod yn uchel ac mae'r dull hwn o weithredu yn gofyn am weithio mewn partneriaeth yn dda rhwng asiantaethau ac asiantiaid sydd wedi'u hyfforddi'n dda. Gall y buddiannau fod yn helaeth gan gynnwys mwy o swyddi i bobl leol a mwy o ymddiriedaeth.

Mae mesurau i'w gwneud yn haws cael gafael ar wasanaethau yn gysylltiedig ag ystod eang o fuddiannau gan gynnwys cynhwysiant cymdeithasol, costau cyflenwi gwasanaethau is, ac, mewn rhai achosion, fuddiannau economaidd, er enghraifft helpu pobl ar fudd-daliadau i ddeall eu hawliadau. Yn aml, mae angen eu cyfuno â mesurau i wella systemau trafnidiaeth ac mae angen i'r cyfuniad o ddulliau gweithredu ddiwallu anghenion lleol. Er enghraifft, gall cynlluniau Asiantiaid Pentref fod yn hynod effeithiol mewn ardaloedd mwy prin eu

poblogaeth, lle mae ffurfiau eraill ar gyflenwi gwasanaethau yn ddrud, neu lle nad yw'n hawdd cyrraedd canolfannau gwasanaeth.

Mae Tabl 3 yn nodi dau ddull amgen o gefnogi/gwella gofal plant o ansawdd, y byddai angen cymorth gan lywodraeth ganolog ar y ddau er mwyn eu sefydlu a'u goruchwylio, er mae'n debygol y gallai asiantaethau gwasanaeth presennol fynd ati i wella gofal plant o ansawdd.

## Tabl 3. Ymyriadau i wella mynediad i wasanaethau

| Mynediad i wasanaethau Ymyriadau | Math o ymyriad | Cost | Effaith ar bobl sydd angen defnyddio gwasanaethau | Amserlen | Effeithiau trawsbynciol: gwasanaethau cymorth | Effeithiau trawsbynciol: creu cyfoeth | Effeithiau trawsbynciol: amgylchedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Siopau un stop | Cyflenwi gwasanaethau'r llywodraeth mewn modd integredig | Canolig-Uchel | Amrywiol | Canolig | Effaith amrywiol yn dibynnu ar yr amrywiaeth o gysylltiadau a'u heffeithiolrwydd | Costau teithio is | Llai o angen i deithio; ôl-troed carbon is |
| Canolfannau adnoddau | Cyflenwi gwasanaethau mewn modd integredig | Canolig-uchel | Amrywiol | Canolig | Effaith amrywiol yn dibynnu ar yr amrywiaeth o gysylltiadau a'u heffeithiolrwydd | Costau teithio is | Llai o angen i deithio; ôl-troed carbon is |
| Canolfannau cymunedol | Darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth | Canolig | Uchel | Hirdymor | Darparu mynediad i ystod eang o wasanaethau cymorth; cyrraedd rhannau anodd eu cyrraedd o gymdeithas | Datblygu cyfalaf dynol a chymdeithasol | |
| Cyflenwi gwasanaethau cymunedol/y llywodraeth | Darparu gwasanaethau ar-lein | Isel | Isel | Byr | Cysylltu ag ystod ehangach o wasanaethau | | Llai o angen i deithio; ôl-troed carbon is |
| Darparwyr gwybodaeth a hyfforddir yn lleol (e.e. Asiantiaid Pentref) | Darparu cyngor a gwybodaeth wyneb yn wyneb ac yn lleol | Isel | Uchel | Hirdymor | Darparu cysylltiadau â gwasanaethau eraill<br><br>Rhybuddio darparwyr gwasanaethau | Lleihau allgáu cymdeithasol; datblygu cyfalaf economaidd drwy helpu pobl ar fudd-daliadau i ddeall eu hawliadau | |

eraill am
broblemau.

| Mynediad i wasanaethau<br><br>Ymyriadau | Math o ymyriad | Cost | Effaith ar bobl sydd angen defnyddio gwasanaethau | Amserlen | Effeithiau trawsbynciol: gwasanaethau cymorth | Effeithiau trawsbynciol: creu cyfoeth | Effeithiau trawsbynciol: amgylchedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal plant | Hyfforddiant gofal plant a datblygu busnes | Isel-canolig | Uchel | Canolig | Darparu mynediad i amrywiaeth o wasanaethau cymorth i'r rhai sy'n datblygu busnesau gofal plant | Datblygu cyfalaf dynol ac economaidd; darparu mynediad i gyllid i gartrefi incwm isel er mwyn sefydlu busnes newydd neu ehangu. | |
| | Darparu gwasanaethau a rennir drwy fod yn aelod o rwydwaith cyflenwi | Isel | Canolig | Byr | Cael gwybodaeth a defnyddio gwasanaethau gweinyddol am gost resymol. | Lleihau costau busnesau gofal plant bach | |
| Gofal iechyd yn borth i ystod ehangach o wasanaethau | Mynediad i wasanaethau a chymorth | Isel | Uchel | Byr | Mynediad i ystod ehangach o wasanaethau (a gydleolir) | Gwella cyfalaf iechyd.<br><br>Costau teithio is | Ôl-troed carbon a theithio is |

# Tlodi Tanwydd

Mae bron i chwarter poblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi tanwydd (National Energy Action, 2017). Ymhlith yr ymyriadau mae cymorth grant (e.e. lwfans tanwydd gaeaf y DU) a rhaglenni mawr y llywodraeth i wella effeithlonrwydd thermol y stoc dai, a thrwy hynny leihau'r defnydd o danwydd a biliau.  Ni all cartrefi incwm isel fforddio buddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni (fel gosod cyfarpar newydd, inswleiddio waliau ceudod, a gosod ffenestri gwydr dwbl). Mae buddsoddiad y llywodraeth yn y mesurau hyn yn gostus ond mae iddo fuddiannau hirdymor o ran biliau tanwydd is, llai o ddefnydd o danwydd ffosil a gwelliannau i iechyd a lles.

Mae'r gwerthusiadau a nodwyd gennym yn dangos pwysigrwydd ystyried  buddiannau iechyd a buddiannau cymdeithasol gwell effeithlonrwydd ynni mewn tai er mwyn dangos yr elw llawn o fuddsoddi (yn enwedig o ran lleihau costau gofal iechyd yn y byrdymor a'r hirdymor).  Mae'n awgrymu achos cryfach dros fwy o fuddsoddiad gan y llywodraeth nag os bydd astudiaethau'n canolbwyntio ar filiau tanwydd yn unig.

## Tabl 4. Ymyriadau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd

| Tlodi Tanwydd Ymyriadau | Math o ymyriad | Cost | Effaith ar bobl mewn tlodi tanwydd | Amserlen | Effeithiau trawsbynciol: gwasanaethau cymorth | Effeithiau trawsbynciol: creu cyfoeth | Effeithiau trawsbynciol: amgylchedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella effeithlonrwydd thermol y stoc dai | Buddsoddiad gan y llywodraeth; cymhorthdal; neu rwymedigaeth cyflenwyr | Uchel | Biliau tanwydd is; cartrefi cynhesach; llai o broblemau iechyd; gwell ansawdd bywyd | Hirdymor<br><br>(>10 mlynedd – yn amrywio yn ôl y cam gweithredu) | Costau gofal iechyd is; llai o ymweliadau â'r feddygfa a'r ysbyty; llai o wariant ar deithio a meddyginiaeth | Creu swyddi drwy adnewyddu'r stoc dai;<br><br>Cynyddu gwerth y stoc dai. | Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ($CO_2$); Cyfrannu at dargedau newid hinsawdd |
| Banciau tanwydd | Partneriaeth â banciau bwyd er mwyn darparu cyllid i'r rhai na allant dalu biliau tanwydd | Isel | Cymorth i bobl mewn argyfwng | Uniongyrchol/Byrdymor | O bosibl yn cyfrannu at gostau gofal iechyd is | | |
| Clybiau ynni lleol | Swmp-brynu ynni a defnyddio mesuryddion deallus er mwyn cael budd o wahaniaethau mewn prisiau | Isel-canolig | Costau ynni is | Byrdymor (yn dibynnu ar y dull prisio ynni) | | Datblygu cyfalaf dynol a chymdeithasol lleol. Costau ynni/biliau tanwydd is | |
| Cynhyrchu ynni adnewyddadwy cymunedol | Buddsoddi mewn cynhyrchu ynni a/neu wres ar raddfa fach | Canolig | Efallai nad effeithir ar bobl mewn tlodi tanwydd | Hirdymor<br><br>(25-30 mlynedd) | | Datblygu cyfalaf dynol a chymdeithasol lleol. Gall gynhyrchu ffrwd incwm | Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ($CO_2$); Cyfrannu at dargedau newid hinsawdd |

cymunedol.

# Yr Economi Wledig

Mae gwella amodau datblygu busnes a chreu swyddi yn hanfodol er mwyn lleddfu tlodi hirdymor. Mae'n bwysig bod rhaglenni yn ddigon hyblyg i alluogi cymunedau i'w haddasu i adlewyrchu adnoddau, cryfderau ac anghenion lleol. Rhaid i ymyriadau ystyried lefelau sgiliau, cyfleoedd buddsoddi, anghenion datblygu a hyfforddi, opsiynau trafnidiaeth, a'r gallu i gael gafael ar wasanaethau cymorth (e.e. canolfannau gwaith a gwasanaethau ariannol).

Nododd ein dadansoddiad bedwar prif ddull gweithredu:

- Cymorth rhaglennu strategol ledled ardal;
- Benthyciadau;
- Buddsoddiadau angel;
- Cyfrifon datblygu unigol.

Gall cymorth rhaglennu strategol ledled ardal ategu datblygiadau rhanbarthol a/neu diriogaethol, a helpu i gyflawni ystod ehangach o nodau lleddfu tlodi a chynhwysiant cymdeithasol.  Mae rhaglen Farm-to-Plate Vermont (Perry, 2014) yn enghraifft dda. Mae'n dod ag ystod eang o randdeiliaid ynghyd i gytuno ar weledigaeth a rhaglen ar gyfer gwella'r sector bwyd ac amaethyddiaeth mewn rhan wledig o UDA.

Mae rhaglen LEADER a gyflwynir drwy Grwpiau Gweithredu Lleol o dan raglen datblygu gwledig yr UE yn gweithredu mewn ffordd debyg, er i raddau llai.  Nod LEADER yw galluogi buddsoddiad crynodedig mewn ardaloedd lleol penodol.  Yn y DU, ar y cyfan, mae'r arian a fuddsoddwyd wedi bod yn swm rhy fach mewn perthynas â maint yr economi wledig i gael effaith sylweddol (Defra, 2016).  Mewn rhai o aelod-wladwriaethau'r UE, fodd bynnag, lle mae cyllidebau LEADER yn llawer mwy, mae wedi cael effeithiau sylweddol a strategol.

Mae benthyciadau yn helpu i sicrhau bod buddsoddiadau a wneir ar lefel unigol neu gymunedol yn cynnig cymaint o werth am arian â phosibl. Mae cronfa gylchol yn ailgylchu un pot o arian dros amser, gan elwa mwy o unigolion neu fusnesau.  Ymhlith yr enghreifftiau mae benthyciadau rhwng cymheiriaid (e.e. Slow Money yn Maine, UDA, sy'n darparu cyllid o fuddsoddiadau i ddatblygu busnesau micro a bach), a Chronfa Ynni Adnewyddadwy Cymunedau Gwledig sy'n darparu grantiau bach a benthyciadau mawr i dywys prosiectau ynni adnewyddadwy drwy'r broses gynllunio.  Nododd gwaith gan CCRI fel rhan o'r gwerthusiad tymor canolig o'r rhaglen datblygu gwledig yn Lloegr (Powell a Courtney, 2013) fod cyfran sylweddol o fuddiolwyr grantiau gan y sector preifat o blaid y cysyniad o fenthyciad, yn wahanol i arian grant, er mwyn cefnogi buddsoddiadau masnachol a gynlluniwyd i ysgogi twf gwledig a chreu swyddi.

Mae buddsoddiadau angel yn gofyn am sefydliadau a wnaiff godi arian o'r sector preifat i'w fuddsoddi yn ecwiti busnesau newydd neu fusnesau sy'n tyfu, ac maent i'w gweld yn

werthfawr mewn rhannau gwledig o UDA a Chanada (Brightstar, 2015; Rhaglen Rhwydwaith Angel, 2017). Mae'n llenwi'r bwlch rhwng benthyciadau bach gan deulu a ffrindiau a chyfalaf menter ar gyfer busnesau bach na allant gael benthyciadau masnachol. Gweir buddsoddiadau risg uchel, sy'n gofyn am roi cryn sylw i waith cynllunio a rheoli busnes.

Mae cyfrifon datblygu unigol yn canolbwyntio ar ddatblygu'r unigolyn, neu gartref unigol, a'r nod penodol yw helpu cartrefi allan o dlodi drwy wobrwyo cynilion ag arian ychwanegol unwaith y cyflawnir targed. Mae sawl talaith yn UDA wedi gweithredu systemau o'r fath yn llwyddiannus ers sawl blwyddyn. Nodir bod y buddiannau yn niferus ac yn barhaus, gan gynnwys gwella'r gallu i reoli cyllideb y cartref, lleihau dyledion, cynyddu cyfalaf dynol ac ennyn hyder wrth reoli arian, ac adeiladu ar yr ased y buddsoddwyd yr arian ynddo (Brigham a Fisher, 2011; Menter Cyfrifon Datblygu Unigol Oregon, 2013). Gall cyfrifon datblygu unigol gael eu cynllunio i sicrhau y cyflawnir mathau penodol o amcanion ar gyfer unigolion neu gartrefi.

## Tabl 5. Ymyriadau i wella'r economi wledig

| Yr Economi Wledig Ymyriadau | Math o ymyriad | Cost | Effaith ar fuddiolwyr a/neu'r economi wledig | Amserlen | Effeithiau trawsbynciol: gwasanaethau cymorth | Effeithiau trawsbynciol: creu cyfoeth | Effeithiau trawsbynciol: amgylchedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogi amaethyddiaeth a'r gadwyn fwyd | Rhaglen datblygu economaidd ledled ardal | Uchel | Effaith uchel ar yr economi leol | Hirdymor | Integreiddio datblygu economaidd rhwng sectorau drwy weithio mewn partneriaeth. | Datblygu cyfalaf dynol a chymdeithasol drwy weithio mewn partneriaeth; meithrin sgiliau busnes ac entrepreneuraidd. Datblygu cyfalaf economaidd. | |
| Benthyciadau | Benthyciwr annhraddodiadol – benthyciadau datblygu busnes i gartrefi incwm isel | Canolig | Uchel<br><br>I unigolion sy'n cael y benthyciad | Tymor canolig-hirdymor | | Datblygu cyfalaf economaidd; meithrin sgiliau entrepreneuraidd. | |
| | Benthyciadau bach rhwng cymheiriaid | Isel | Uchel<br><br>I unigolion sy'n cael y benthyciad | Byrdymor-Tymor canolig | | Datblygu cyfalaf economaidd; meithrin sgiliau entrepreneuraidd. | |
| | Benthyciadau bach byrdymor yn lle defnyddio benthyciadau diwrnod cyflog | Isel | Canolig<br><br>Rhaid ad-dalu'r benthyciad | Byrdymor | | Lleihau taliadau llog ar fenthyciadau o gymharu â benthyciadau diwrnod cyflog | |
| Buddsoddiadau angel | Cyllid i gwmnïau bach a chwmnïau newydd o | Canolig | Canolig | Hirdymor | Gwell mynediad i wasanaethau ariannol | Datblygu cyfalaf economaidd; meithrin sgiliau | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | fuddsoddiadau | | Ar yr economi leol | | | entrepreneuraidd. | |

| Yr Economi Wledig<br><br>Ymyriadau | Math o ymyriad | Cost | Effaith ar fuddiolwyr a/neu'r economi wledig | Amserlen | Effeithiau trawsbynciol: gwasanaethau cymorth | Effeithiau trawsbynciol: creu cyfoeth | Effeithiau trawsbynciol: amgylchedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrifon datblygu unigol | Arian cyfatebol i gartrefi incwm isel sy'n arbed arian | Canolig | Uchel<br><br>I unigolion sy'n cwblhau'r rhaglen | Byrdymor-Tymor canolig | Gwell mynediad i wasanaethau cymorth ariannol | Datblygu cyfalaf dynol ac economaidd | |
| Cronfa ynni adnewyddadwy cymunedol | Grantiau a benthyciadau ar gyfer buddsoddiadau cymunedol mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy | Isel | Isel ar yr economi leol - datblygiadau bach<br><br>Yn uchel o bosibl i'r gymuned | Hirdymor<br><br>(>25-30 mlynedd) | | Datblygu cyfalaf dynol a chymdeithasol; posibilrwydd o ddatblygu cyfalaf economaidd. | Llai o ddefnydd o danwydd ffosil (allyriadau nwyon tŷ gwydr is) |
| Rhaglen LEADER | Arian grant ar gyfer datblygiadau economaidd a chymunedol tiriogaethol | Uchel | Isel ar yr economi leol - datblygiadau bach; Uchel i'r rhai a gaiff arian yn uniongyrchol. | Tymor canolig | Datblygu a/neu atgyfnerthu argaeledd gwasanaethau lleol a'u cyflenwi | Datblygu cyfalaf dynol a chymdeithasol; gwella cyfalaf a seilwaith economaidd i ryw raddau. | |

# Dulliau Unedig o Drechu Tlodi Gwledig

Mae'r ymyriadau a ddisgrifir yn Nhablau 1 i 5 yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar leddfu tlodi. Ond mae'r hyn sy'n achosi tlodi gwledig yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig. Felly, mae'n bwysig peidio â'u trin ar wahân. Yn hytrach, mae angen cyfuno ymdrechion i drechu tlodi gwledig â dulliau unedig o fynd i'r afael ag anghenion o ran tai a thrafnidiaeth, ymhlith eraill, mewn modd cydgysylltiedig.

Mae hyn yn golygu deall sut y gall ystod eang o 'asedau' a 'chyfoeth' gael eu defnyddio i greu llwybrau cymdeithasol ac economaidd allan o dlodi, ar lefel yr unigolyn, y gymuned, a hyd yn oed y rhanbarth. Nid yw cyfleoedd cyflogaeth yn ddigon ar eu pen eu hunain i fynd i'r afael â thlodi (Sefydliad Joseph Rowntree, 2016). Mae Arrow, et al. (2012) yn tynnu sylw at y rhan y gall asedau eraill, fel cyfalaf naturiol, newid technolegol, a chyfalaf iechyd, a anwybyddir yn aml, ei chwarae wrth alluogi datblygu cynaliadwy. Ac mae'n bwysig teilwra ymyriadau i anghenion a chyfleoedd unigol a lleol.

# Goblygiadau Polisi

Mae ein dadansoddiad yn awgrymu tair set o oblygiadau polisi sy'n berthnasol i Gymru. Yn gyntaf, mae nifer o fylchau pwysig yn y dystiolaeth, ac o'r herwydd mae'n anodd gwybod beth sy'n gweithio – neu beth nad yw'n gweithio ac mae llawer o ymyriadau yn benodol i'w cyd-destun. Er bod swm cymharol fawr o lenyddiaeth ar ymdrechion i wella mynediad i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig, mae bylchau mawr y tu hwnt i hynny:

- Roedd yn anodd dod o hyd i ymyriadau i atgyfnerthu'r economi wledig, yn rhannol am fod diffiniadau o'r economi wledig yn amrywio rhwng gwledydd.
- Roedd tystiolaeth o ymyriadau i drechu tlodi tanwydd yn gymharol brin. Ni chaiff ei ystyried yn broblem mewn llawer o wledydd.
- Yn yr un modd, ni chyhoeddwyd llawer am raglenni i wella trafnidiaeth wledig. Efallai mai'r rheswm dros hyn yw nad yw trafnidiaeth gyhoeddus wledig braidd yn bodoli yn UDA, ac mewn llawer o wledydd Ewropeaidd mae systemau trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn fwy effeithiol na'r rhai yn y DU, ac yn aml maent wedi'u cysylltu â gweithgareddau eraill, er enghraifft dosbarthu'r post.
- Ni cheir tystiolaeth ddibynadwy o'r hyn sy'n penderfynu p'un a ellir trosglwyddo ymyriadau llwyddiannus i gyd-destunau eraill. Am y rheswm hwn, mae angen i ddulliau gweithredu o fannau eraill gael eu haddasu i ddiwallu anghenion cymunedau lleol a'u treialu er mwyn profi eu heffeithiolrwydd cyn eu cyflwyno yng Nghymru.
- Ychydig iawn o werthusiadau manwl gywir dibynadwy a geir o gosteffeithiolrwydd ymyriadau. Hyd yn oed yn achos rhaglenni mawr a gefnogir gan arian cyhoeddus sylweddol, mae astudiaethau fel arfer yn disgrifio ymyriadau yn hytrach na'u gwerthuso. Ymddengys fod gwerthusiadau mewnol (er enghraifft gwerthusiadau o raglenni cyfrifon datblygu unigol taleithiol yn UDA a chanolfannau trafodion gwledig yn Awstralia) yn tynnu sylw at agweddau cadarnhaol ac yn rhoi llai o sylw i nodweddion negyddol ymyriadau. Yn aml, caiff rhaglenni, cynlluniau a mentrau lawer iawn o gyhoeddusrwydd pan gânt eu cyflwyno ond maent yn diflannu o'r golwg yn sgil newid llywodraeth neu ideoleg, neu maent yn mynd yn angof yn dawel bach pan sylweddolir na fyddant yn cyflawni'r amcanion a addawyd.

Yn ail, mae gan Gymru ystod eang o bolisïau, strategaethau a rhaglenni i fynd i'r afael â gwahanol agweddau ar dlodi gwledig, ond nid ydynt bob amser yn seiliedig ar dystiolaeth neu wedi'u cyfuno. Mae angen cynnal dadansoddiad systematig o anghenion a'r bylchau mewn darpariaeth bresennol i gymunedau gwledig. Dylai data meintiol gael eu hategu gan ddadansoddiad ansoddol o gyfweliadau â rhanddeiliaid a thechnegau olrhain prosesau

manwl er mwyn nodi'r hyn sy'n arwain at lwyddiant neu fethiant rhaglenni cyfredol, yn ogystal â natur a graddau anghenion nas diwellir.

Yn drydydd, mae angen talu sylw i'r cymysgedd o ymyriadau, fel eu bod, gyda'i gilydd, yn datblygu cyfalaf dynol, cymdeithasol, iechyd ac economaidd. Gall ymyriadau fynd i'r afael â mwy nag un broblem, a gallant gyflawni amrywiaeth o fuddiannau (uniongyrchol ac anuniongyrchol). Gallai gwella effeithlonrwydd thermol tai, er enghraifft, helpu pobl allan o dlodi tanwydd, cynyddu gwerth y stoc dai, datblygu 'cyfalaf iechyd', lleihau costau gofal iechyd, a chreu swyddi. Drwy gydnabod yn gliriach holl fuddiannau a chysylltiadau gweithgareddau, gellir nodi'r cymysgedd gorau o ymyriadau ar gyfer ardal. Mae angen sawl gwahanol fath o ymyriad:

- Camau gweithredu byrdymor i fynd i'r afael ag argyfwng, fel banciau bwyd a thanwydd i helpu'r rhai sydd angen cymorth ar unwaith.
- Helpu darparwyr gwasanaeth i leihau'r amser a'r gost i drigolion mewn ardaloedd gwledig o ran cael gafael ar wasanaethau. Ymhlith yr opsiynau mae rhyw fath o system gyflenwi gysylltiedig a/neu ganolog, defnyddio gwasanaethau iechyd fel porth i wasanaethau cymorth ehangach, neu bartneriaethau â gwahanol sefydliadau er mwyn cyflenwi gwasanaethau yn y gymuned yn fwy.
- Cymysgedd o gamau sy'n canolbwyntio ar leoedd a phobl er mwyn creu cyfoeth. Mae creu cyfoeth yn ei ystyr ehangaf yn cynnwys buddsoddi mewn seilwaith, gweithgarwch economaidd, a datblygu pobl a chymunedau (h.y. meithrin gallu ac adnoddau). Mae cyfoeth ardal yn dibynnu ar gael cyllid at ddibenion datblygu economaidd, cael mynediad i weithlu hyfforddedig sydd â'r sgiliau perthnasol, a'r cyfalaf dynol a chymdeithasol i gyflawni gweithgarwch newydd ac ymdrin â risgiau. Nid yw ardaloedd gwledig yn homogenaidd ac mae angen i ddulliau buddsoddi fod yn hyblyg fel bod modd eu haddasu yn ôl cyd-destunau gwahanol (e.e. buddsoddi mewn datblygu adnoddau lleol, darparu gwasanaethau newydd fel gofal plant a all gynyddu cyfleoedd gwaith mewn cartrefi incwm isel yn ogystal â chreu cyfleoedd busnes newydd, neu fuddsoddi mewn darparu trafnidiaeth i alluogi pobl i gael hyfforddiant a mynd i'r gwaith mewn canolfannau trefol gerllaw).

# Cyfeiriadau


Arrow, K., Dasgupta, P., Goulder, L., Mumford, K., ac Oleson, K. (2012) **Sustainability and the measurement of wealth**. Environment and Development Economics, Cyf.17, tt.317-353.

Brigham, C. a Fisher, P. (2011) **Executive Summary: The Social Benefits of Individual Development Accounts.** The Iowa Policy Project, **www.IowaPolicyProject.org**

Brightstar (2015) **Job creation through capital donation: Brightstar Wisconsin 2015 Annual Report.** **http://www.brightstarwi.org/** and **http://www.brightstarwi.org/files/2015%20Annual%20Report.pdf**

Canadian Rural Revitalization Foundation (2015) **State of Rural Canada Report**. **file:///C:/Users/s2100562/Downloads/SORC2015.pdf** ISBN 978-0-9948480-1-7 (pdf).

Defra (2016). **Ex-Post Evaluation of the Rural Development Programme for England (RDPE) 2007-2013.** ADAS UK Ltd mewn partneriaeth â CCRI (Prifysgol Swydd Gaerloyw), Fera Science Ltd a Pareto Consulting. Adroddiad nas cyhoeddwyd a gyflwynwyd i Defra ar 9 Rhagfyr 2016.

Madanipour, A., Shucksmith, M., a Talbot, H. (2015) **Concepts of poverty and social exclusion in Europe.** Local Economy, Cyf. 30, rhif 7, tt. 1-21.

Menter Cyfrifon Datblygu Unigol Oregon (2013) **Building Pathways to Prosperity: Fact sheet.** **www.oregonidainitiative.org.**

National Energy Action (2017) **UK Fuel Poverty Monitor 2016 – 2017: A review of progress across the nations.** **http://www.nea.org.uk/wp-content/uploads/2017/06/FPM_2017.pdf**

Palmer, G. (2017) **Poverty and social exclusion in rural East of England.** New Policy Institute. **http://www.npi.org.uk/files/3413/7544/5798/poverty_in_the_rural_east.pdf** Cyrchwyd 9 Mawrth 2017

Perry, D. (2014) **Case study: Vermont Farm to Plate Network. Vermont organizations work to achieve collective impact and transform a food system**. Y Sefydliad Cymunedau Cynaliadwy **www.iscvt.org**

Powell, J. a Courtney, P. (2013)  **An assessment of the Social Return on Investment of Axes 1 and 3 of the Rural Development Programme for England**. Adroddiad CCRI a gyflwynwyd i Defra.

Rhaglen Rhwydwaith Angel (ANP) (2017) **http://www.nao-ontario.ca/angel-network-program-anp/**


Sefydliad Joseph Rowntree (2016) **Ffyniant heb Dlodi: Fframwaith gweithredu yng Nghymru.**  Lluniwyd gyda chymorth Sefydliad Bevan.

Wilkinson, R., a Pickett, K. (2009) **The Spirit Level: why equality is better for everyone**. Penguin Books, Llundain

Williams, E. a Doyle, R. (2016) **Existing Research and Evidence Gaps**. Mai 2016. Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.

# Atodiad 1- Enghraifft o gymysgedd o raglenni i ddiwallu anghenion a chreu cyfoeth

Mae Ffigur A1 isod yn dangos dull cyffredinol o leddfu tlodi yn seiliedig ar ymyriadau a nodwyd o'r ymchwil sy'n sail i'r adroddiad hwn. Mae'n cynnwys cymysgedd o gamau gweithredu i ddiwallu anghenion cyfredol ac i ddatblygu cyfleoedd yn y dyfodol drwy




fuddsoddi mewn cyfalaf economaidd, dynol a chymdeithasol, a ategir gan waith cynllunio a chamau gweithredu strategol. Yr hyn nad yw'n amlwg yn y diagram yw'r posibilrwydd o 'deilwra' ymyriadau arfaethedig er mwyn gweddu i amodau cymuned, ardal neu ranbarth penodol. Disgrifir yr ymyriadau yn fwy manwl isod.

**Ffigur A1: Enghraifft o gymysgedd o raglenni i ddiwallu anghenion a chreu cyfoeth**

## Creu Cyfoeth

Integreiddio camau gweithredu sy'n gweithio mewn mannau eraill er mwyn datblygu cyfalaf (dynol, iechyd, cymunedol, cymdeithasol, economaidd).

- Cymorth mentora ym maes datblygu busnes
  - Buddsoddiadau angel
  - 'arian araf' (e.e. benthyciadau rhwng cymheiriaid)
- Trafnidiaeth
  - Cynlluniau trafnidiaeth gymunedol (datblygu cyfalaf cymunedol/cymdeithasol)
  - Cynllun clwb ceir
  - Darparu cerbydau i'r rhai sydd am gael addysg/sgiliau/gwaith (targedu pobl ifanc a phobl â phlant)
- Datblygiad personol
  - Cyfrifon datblygu unigol i bobl sydd am ddatblygu cyfalaf unigol neu fuddsoddi
  - Gofal plant fforddiadwy – cymorth hyfforddi a buddsoddi i bobl sydd am ddatblygu eu busnes eu hunain
- Cynlluniau asedau cymunedol
  - Tai fforddiadwy
  - Ynni adnewyddadwy
  - Asiantiaid pentref (datblygu cyfalaf cymdeithasol)

## Diwallu anghenion cyfredol

Fe'u diwellir yn rhannol drwy wasanaethau lles

- Cymorth i bobl mewn angen/argyfwng
  - banciau tanwydd;
  - banciau bwyd;
  - tai fforddiadwy
  - mynediad i wasanaethau (e.e. cyngor ar ddyledion)

- Trafnidiaeth
    - Gwasanaethau sefydlog a hyblyg a amserlennir
    - Gwasanaeth trafnidiaeth gymunedol
    - Gwasanaethau galw'r gyrrwr
- Mynediad i wasanaethau
    - dulliau mynediad unigol sy'n cysylltu iechyd a mynediad i wasanaethau cymorth cymdeithasol ehangach
- Cyflenwi gwasanaethau cymunedol
    - Asiantiaid pentref i gefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau/cadw pobl yn eu cartrefi
    - Canolfannau gwasanaethau cymunedol (cymorth penodol i ddiwallu anghenion lleol)
- Tlodi tanwydd
    - Cynlluniau effeithlonrwydd ynni (inswleiddio; effeithlonrwydd boeleri)
    - Clybiau prynu ynni

## Rhaglenni a chamau gweithredu strategol

- Tai fforddiadwy
    - Cymorth buddsoddi (e.e. credydau treth, cymhellion ariannol)
    - Cynllun strategol tai fforddiadwy
- Datblygu cyfleoedd economaidd a chyflogaeth
    - Cymorth buddsoddi (e.e. credydau treth, cymhellion ariannol)
    - Cynllun strategol datblygu'r economi wledig (e.e. gwella gweithgarwch y gadwyn gyflenwi)
- Tlodi tanwydd
    - Strategaeth ynni cymunedol hirdymor yn seiliedig ar "becynnau atebion cyflawn" i gartrefi mewn tlodi tanwydd
- Trafnidiaeth wledig
    - Strategaeth trafnidiaeth wledig yn seiliedig ar 'becynnau trafnidiaeth integredig' (a amserlennir, hyblyg, a galw'r gyrrwr)

    - Cymorth i sefydlu cynlluniau sy'n darparu cerbydau i gartrefi unigol sydd wedi'u cynllunio a'u cyflwyno ar lefel ranbarthol ac is-ranbarthol (h.y. cynllun hyblyg wedi'i deilwra sy'n diwallu anghenion y gymuned)
- Cyflenwi gwasanaethau
    - Cynyddu adnoddau technolegol er mwyn cyflenwi gwasanaethau (e.e. iechyd)
        - Canolfannau cyflenwi gwasanaethau integredig

## Manylion yr Awduron

Mae **John Powell** yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned, Prifysgol Swydd Gaerloyw.

Mae **Dan Keech** yn Gymrawd Ymchwil yn Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned, Prifysgol Swydd Gaerloyw.

Mae **Matt Reed** yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned, Prifysgol Swydd Gaerloyw.

Mae **Janet Dwyer** yn Gymrawd Athro Polisi Gwledig yn Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned, Prifysgol Swydd Gaerloyw.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
**Emyr Williams**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Trwyddedwyd yr adroddiad hwn o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru